



NEGES Y MAER 20.05.20 – Cyng. Gareth John

CADWCH YN DDIOGEL - PRYNWCH YN LLEOL

Mae bod y Maer cyntaf yng Nghaerfyrddin i gymryd y swydd dros y rhyngwyd drwy Zoom yn crynhoi fel mae bywyd wedi newid dros y ddau fis diwethaf. Mae'r pethau yr oeddem yn meddwl oedd yn bwysig yn sydyn iawn ddim yn bwysig, a'r pethau yr oeddem i gyd yn cymryd yn ganiataol ddim yn bosib. Mae pawb wedi aberthu er mwyn lles pawb a dau fis i mewn rydw i'n parhau i ryfeddu at yr holl waith arbennig sydd yn cael ei wneud yng nghymuned Caerfyrddin i helpu pobl i ymdopi gydag effaith cyfredol Covid 19.

Efallai bod y Maer wedi newid ond mae'r neges y parhau yn gyson. Diolch i bob un ohonoch am gefnogi'ch gilydd. Mae ysbryd a phenderfynoldeb cymunedol anhygoel Caerfyrddin, ynghyd â'r ymateb gwirioneddol ragorol a pharhaus gan y Cyngor Sir yn lleol wedi sicrhau bod help a chefnogaeth effeithiol ymarferol yn cael ei rhoi i'n staff arwrol yn y GIG a Gofal, yr henoed, bregus a phob agwedd o fywyd a busnes y gallech sôn amdano. Diolch yn fawr i chi gyd.

Nawr bod y rhwydweithiau cymorth i ddarparu gwasanaethau hanfodol wedi eu sefydlu'n gadarn mae'r ffocws yn troi at sut y gallwn helpu busnesau a lleoliadau ailagor yn raddol mewn amgylchedd diogel - pan ddaw'r diwrnod hwnnw.

Dros yr wythnos diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda ein cydweithwyr o sefydliadau eraill gan gynnwys y Siambr Fasnach a Bord Gron Caerfyrddin i ddatblygu cynlluniau i hyrwyddo adferiad y dref - gan obeithio bod y cloi yn lleddfu'n raddol dros yr wythnosau a misoedd nesaf. Mae brwdfrydedd ac ymrwymiad y sefydliadau hyn wedi creu argraff fawr arnaf, a gyda'n gilydd byddwn yn gwneud ein gorau i gefnogi busnesau lleol y dref.

Mae rhai o'r syniadau yr ydym yn datblygu yn cynnwys cyflwyno 'hafanau cymdeithasu diogel' yng nghanol y dref, a hefyd 'gorsafoedd hylendid' a fydd yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ac yn helpu pobl i siopa yn yr amgylchedd mwyaf diogel posib. Byddwn yn gwneud hyn gyda diogelwch a lles pawb ar ben blaen ein cynllunio.

Bydd Cyngor Tref Caerfyrddin yn darparu ein basgedi crog am ddim yr haf hwn i'r busnesau hynny a gefnogodd y cynllun llynedd, a bydd gwaith yn cychwyn ar unwaith i fywiogi ymddangosiad canol y dref yn barod ar gyfer agor mwy o fusnesau. Fel arfer, fe fydd croeso mawr i wirfoddolwyr i'n helpu gyda'r gwaith hwn.

Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb yn ein helpu gyda'r prosiectau hyn yng nghanol y dref i gysylltu gyda Chlerc y Dref ar ajharries@carmarhentowncouncil.gov.uk neu ein cyfleuster Gofal Cymunedol Caerfyrddin ar carmarthencommunitycare@gmail.com